***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1469

# Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol, Darfodol ac Arbed) (Cymru) 2013

**Diwrnod penodedig: safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol**

**2.**—(1) 10 Gorffennaf 2013 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau canlynol, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

(a) adran 318 (safleoedd cartrefi symudol gwarchodedig i gynnwys safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr) of the 2008 Act;

(b) adran 321(1) (diddymiadau) o Ddeddf 2008 ac Atodlen16 iddi, i'r graddau y mae a wnelont â'r diddymiadau canlynol—

| *Enw* | *Diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Cartrefi Symudol 1983 (p.34) | Yn adran 5(1), yn y diffiniad o "protected site", y geiriau o "does not include" i "that,"; |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p.33) | Yn adran 80(4), y geiriau o "in the definition" i "1983 or". |

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthyglau 3 i 7.